Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plasgwyn**

**Cartref Nyrsio Plasgwyn**
**Pentrefelin**
**Cricieth**
**LL52 0PT**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Plasgwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cariad Care Homes Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 38 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]<br>18 Chwefror 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan Gartref Gofal Plasgwyn dîm llawn o staff rheolaidd sy'n adnabod y bobl sy'n byw yno'n dda ac sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus iawn yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn dda.

Mae'r cartref mewn cyflwr da ac yn cael ei ailaddurno'n rheolaidd. Mae cynlluniau i ad-drefnu ac ailaddurno'r lolfa ac mae'r bobl yn helpu i ddewis y décor newydd. Mae'r maes parcio wedi cael wyneb newydd ac mae lleoedd parcio ar gael i ymwelwyr a'r staff.

Yn ôl yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw, maent yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith ac mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt. Roedd y staff wedi dweud wrth y darparwr bod angen ardal well arnynt ar gyfer eu hegwyliau. Gwrandawyd arnynt ac mae ystafell staff newydd yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd.

Mae'r darparwr/unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bron bob dydd ac yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir i'r bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir ac yn llunio adroddiad ar y canfyddiadau sy'n cynnwys camau gweithredu a chanlyniadau cysylltiedig.

## Llesiant

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael. Dywedodd un person wrthym ei bod yn braf yn y cartref, nad oes neb yn cwyno a'u bod yn gynnes ac yn gyfforddus, a bod y bwyd yn dda. *“Neis iawn yma, cynas a cyffyrddus, neb yn cwyno. Bwyd da iawn yma.”* Dywedodd person arall fod y cartref yn dda iawn, bod y bobl mewn cyflwr da a bod y staff yn garedig iddynt. *“Da iawn yma, pawb mewn cyflwr da. Staff yn dda iawn hefo ni*.” Gwelsom fod y staff yn adnabod y bobl yn dda, yn siarad â nhw'n garedig ac yn gallu rhagweld eu hanghenion.

Gall y bobl ddewis sut i dreulio'u diwrnod. Gall y bobl ddewis pryd i godi a mynd i'r gwely a pha weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Mae cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar eu hanghenion unigol ac yn adlewyrchu eu hoff bethau a'u cas bethau. Caiff iaith gyntaf a dewisiadau diwylliannol y bobl eu cofnodi yn eu cynlluniau personol a chaiff gofal ei ddarparu yn unol â hynny. Mae'r darparwr wedi prynu cerbydau sy'n addas i bobl anabl a gall y bobl fynd allan i leoedd lleol o ddiddordeb sy'n rhoi mwynhad iddynt.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau personol er mwyn eu helpu i deimlo'n gartrefol. Gall y bobl ddylanwadu ar eu hamgylchedd a gallant bleidleisio ar unrhyw newidiadau i'r décor. Mae ardaloedd cymunedol lle gall y bobl eistedd a chymdeithasu, ac mae ardaloedd tawelach ar gael hefyd os oes angen llonydd arnynt. Mae'r ardd mewn cyflwr da ac mae seddi y tu allan lle gall y bobl a'u teuluoedd eistedd a mwynhau'r ardd yn ystod tywydd cynnes.

Gall y bobl ddewis eu prydau bwyd. Yn ôl y bobl y gwnaethom siarad â nhw, mae'r bwyd yn dda yn y cartref. Gwelsom fod y gegin yn drefnus a bod cyflenwad da o fwydydd amrywiol. Gwelsom o'r bwydlenni fod modd diwallu anghenion pobl â deietau arbennig. Mae'r cogydd yn ymweld â'r bobl bob dydd ac yn gofyn iddynt beth yr hoffent ei fwyta y diwrnod canlynol. Gwelsom y gall y bobl gael diodydd a byrbrydau fel y mynnant.

Mae'r staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed a'u cadw'n ddiogel. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff a allai ddisgrifio'r broses ddiogelu a dangos eu bod yn ymwybodol o'r prosesau lleol i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon am unrhyw un.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom o'r cynlluniau personol fod iechyd y bobl yn cael ei fonitro'n rheolaidd, er enghraifft, pwysau a maeth a hylendid y geg. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at y meddyg teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ôl yr angen, ac mewn ffordd amserol. Caiff canlyniadau a chyfarwyddiadau gan y meddyg teulu ac ymweliadau gan weithwyr iechyd proffesiynol eu cofnodi'n ofalus a chaiff unrhyw gyfarwyddiadau eu rhannu â'r staff. Cynhelir asesiadau risg ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o syrthio a defnyddir gwelyau isel/matiau synhwyro i liniaru'r risg. Caiff risgiau cyffredinol i ddiogelwch y bobl eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Caiff siartiau a chynlluniau priodol eu cadw ar gyfer unrhyw un sydd â chlwyfau. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd hefyd a chaiff unrhyw newidiadau i gyflwr y bobl eu diweddaru mewn ffordd amserol.

Mae system gadarn ar waith i roi meddyginiaethau i'r bobl. Caiff meddyginiaethau eu rhoi mor ddiogel â phosibl; a chânt eu cadw mewn ystafell dan glo. Mae trywyddau archwilio a derbynebau da ar gyfer meddyginiaethau sy'n mynd i mewn i'r cartref ac yn gadael y cartref. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar feddyginiaethau a chynhelir asesiadau o gymhwysedd y staff er mwyn sicrhau arferion da.

Mae'r bobl yn cael gofal hamddenol. Gwelsom fod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt mewn da bryd. Caiff clychau galw eu hateb yn gyflym. Gwelsom fod y staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gall y rhan fwyaf o'r staff siarad â'r bobl yn Gymraeg os yw hynny'n well ganddynt. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod ganddynt dîm llawn o staff a'u bod wedi llwyddo i recriwtio staff er mwyn sicrhau bod digon i ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom hyn ar rotas gwaith y staff hefyd.

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn monitro ac yn archwilio'r gofal a roddir i'r bobl er mwyn eu hamddiffyn rhag esgeulustod. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gydag awdurdodau iechyd lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau'n briodol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref hylan a thaclus. Mae gan y cartref staff cadw tŷ a golchi dillad dynodedig sy'n sicrhau bod gan y bobl amgylchedd hylan a dillad glân. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus a'u bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid o 5, sef y sgôr uchaf bosibl.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod y décor yn newydd a bod y dodrefn yn briodol ac yn gyfforddus. Buddsoddwyd yn y cartref yn ddiweddar. Mae'r maes parcio wedi cael wyneb newydd, mae adeiladau allan penodol ar gyfer hyfforddiant staff a defnyddiwyd un o'r adeiladau hyn fel ystafell newid i'r staff yn ystod pandemig COVID-19. Mae ystafell staff newydd yn cael ei hadeiladu mewn ymateb i geisiadau gan y staff. Mae'r lolfa a'r ardal fwyta ar fin cael eu had-drefnu ac mae'r bobl yn helpu i ddewis y décor.

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r asesiadau risg iechyd a diogelwch yn gyfredol. Caiff gwiriadau tân eu cynnal bob wythnos ac mae gwiriadau i brofi diogelwch cyfarpar dŵr a thrydanol, gan gynnwys cyfleustodau eraill, yn gyfredol. Caiff cyfarpar ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen arnynt ar gyfer eu gofal. Caiff y lifft ei gwasanaethu ac mae'n gweithio'n dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bron bob dydd. Mae wedi llunio adroddiad ansawdd amserol sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn dangos sut mae'n goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn dweud ei fod yn cael cefnogaeth dda gan yr unigolyn cyfrifol i gyflawni ei rôl. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cynnwys sylwadau gan y bobl a'r staff yn yr adroddiad ansawdd a'r hyn sydd wedi cael ei wneud mewn ymateb i hyn.

Mae'r staff yn dweud eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol a bod y ddau ohonynt yn hawdd mynd atynt. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r staff yn gyfredol a thrwy'r trefniadau hyn, mae'r staff yn cael amser dynodedig gyda'r rheolwr i sicrhau eu llesiant ac asesu eu hanghenion hyfforddi. Mae hyn yn arwain at arferion da. Caiff hyfforddiant ei ddiweddaru er mwyn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth ddiweddaraf i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

Mae'r arferion recriwtio staff yn foddhaol. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch staff yn gyfredol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae cyfraddau recriwtio a chadw staff yn dda ac mae tîm llawn o staff.

Nid yw'r darparwr wedi datgan unrhyw anawsterau ariannol i AGC.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/02/2023